Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GIG CYMRU NHS WALES

Prif Swyddog Meddygol Cymru

Diweddariad 95: Ebrill 2019

Croeso i Ddiweddariad y Prif Swyddog Meddygol. Fy nod i yn y diweddariad hwn fydd rhoi crynodebau i weithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru o newyddion cyfoes, cyfarwyddyd a datblygiadau sy'n ymwneud ag amrywiaeth eang o faterion sy'n berthnasol i ansawdd y gwasanaeth iechyd a gwella iechyd y boblogaeth. Gobeithio y byddant o ddefnydd i chi. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau am gynnwys a fformat neu awgrymiadau ynglŷn â chynnwys/pynciau, mae croeso i chi anfon e-bost ataf: **PS.ChiefMedicalOfficer@gov.wales**

Diolch i chi am eich gwaith cyson yn cefnogi iechyd a llesiant pawb yng Nghymru.

Frank Atherton
Prif Swyddog Meddygol Cymru

Yn y rhifyn hwn:

Adolygiad o Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan	02
Y defnydd o feddyginiaethau gwrthseicotig mewn cartrefi gofal – Adroddiad ar y Gweithgor Oes Fer	02
Dwy flynedd ers sefydlu'r Gronfa Triniaethau Newydd	03
At Eich Dant	04
Y wybodaeth ddiweddaraf am y System Rheoli e-Atgyfeiriadau Deintyddol	04
Pwysau Iach: Cymru Iach	05
Y Rhaglen Brechu rhag yr Eryr	06
Cyflwyno Gwasanaeth Archwilwyr Meddygol yng Nghymru	07
Arweinwyr Arbenigeddau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru	08
Cynllun Indemniad Proffesiynol ar gyfer Meddygon Teulu yng Nghymru	09
Bwrdd Addysgu Iechyd Powys	09
Rhestr Anrhydeddau Blwyddyn Newydd y Frenhines	10
Tystysgrif Rhagoriaeth ar gyfer Cangen Polisi'r Synhwyrau	10
SPECS	11
Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Parafeddyg-Ragnodydd Annibynnol a Pharafeddyg-Ragnodydd Atodol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2019	11
Y wybodaeth ddiweddaraf am Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) (ynghlwm)	12

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG37512

Adolygiad o Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan

Sefydlwyd Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) yn 2020 er mwyn cynghori Llywodraeth Cymru ynghylch rheoli a rhagnodi meddyginiaethau mewn modd effeithiol, effeithlon a thryloyw. Yn ystod y 17 mlynedd ers hynny, mae'r AWMSG wedi bod yn rhan greiddiol o'r gwaith o wella argaeledd meddyginiaethau arloesol a chosteffeithiol i gleifion yng Nghymru. Yn sgil y newidiadau sylweddol i'r dirwedd ac yn nhermau prosesau ariannu a llywodraethu da, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd adolygiad annibynnol yn cael ei gynnal o AWMSG.

Nod yr adolygiad yw ystyried, adolygu a chyflwyno adroddiad ar y canlynol:

- rôl AWMSG o ran cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a GIG Cymru yn y dyfodol
- y gydberthynas bresennol rhwng AWMSG a Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yng ngoleuni'r cynlluniau i ehangu rôl arfarnu NICE
- y cydbwysedd rhwng y gwahanol swyddogaethau a gyflawnir gan AWMSG, er enghraifft rhwng y gwaith o arfarnu meddyginiaethau newydd a sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu defnyddio i'r eithaf
- deall y modd y mae'r trefniadau ariannu presennol yn adlewyrchu'r cydbwysedd rhwng y swyddogaethau ac a yw hyn yn adlewyrchu'r blaenoriaethau ar hyn o bryd a'r blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

Bydd canfyddiadau'r adolygiad yn cael eu hystyried ar ôl ei chasgliad ym Mai 2019.

Y defnydd o feddyginiaethau gwrthseicotig mewn cartrefi gofal – Adroddiad ar y Gweithgor Oes Fer

Grŵp o feddyginiaethau yw meddyginiaethau gwrthseicotig, a ddefnyddir fel arfer i drin cyflyrau iechyd meddwl tebyg i sgitsoffrenia. Bu pryderon cynyddol dros y blynyddoedd diwethaf ynglŷn â'r defnydd o feddyginiaethau gwrthseicotig i drin symptomau ymddygiadol a seicolegol dementia.

Mae'r adroddiad hwn yn gwneud argymhellion ynghylch y modd y defnyddir data a gesglir fel mater o drefn i helpu i ddeall y defnydd o feddyginiaethau gwrthseicotig ymhlith pobl hŷn sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain ac mewn cartrefi gofal, ac, yn fwy pwysig, i ddeall yr amrywiad yn y defnydd hwnnw a fyddai, heb ragfarnu ei briodolrwydd, yn cyfiawnhau ymchwiliad pellach.

Mae'r adroddiad a'i argymhellion ar gael yn: **www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11556/cr-ld11556-w.pdf**

Dwy flynedd ers sefydlu'r **Gronfa Triniaethau Newydd**

Mae'r Gronfa Triniaethau Newydd, a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2017, yn galluogi cleifion i gael meddyginiaethau a argymhellir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) a Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) yn gynt.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu £16 miliwn y flwyddyn i fyrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre ar gyfer y Gronfa Triniaethau Newydd dros gyfnod pum mlynedd y Llywodraeth hon – cyfanswm o £80 miliwn. Mae'r buddsoddiad sylweddol yn GIG Cymru yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cleifion yn cael y triniaethau diweddaraf a argymhellir yn gyflym, ni waeth lle y maent yn byw yng Nghymru.

Mae'r Gronfa wedi lleihau'r terfyn amser ar gyfer darparu meddyginiaethau newydd o 90 diwrnod i 60 diwrnod. Oherwydd ei llwyddiant, mae'r amser cyfartalog a gymerir i ddarparu meddyginiaethau newydd wedi lleihau i 17 diwrnod. Mae hyn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau cleifion.

Un o'r cyffuriau newydd sydd bellach yn cael ei ddarparu o ganlyniad i'r Gronfa Triniaethau Newydd yw'r cyffur Palbociclib i drin canser y fron, a argymhellwyd gan NICE ar gyfer defnydd rheolaidd ym mis Tachwedd 2017. Mae'r cyffur yn atal canser rhag tyfu a lledaenu ac fe'i hystyrir yn ddatblygiad arloesol ym maes trin a rheoli canser metastatig y fron.

Ceir rhagor o wybodaeth yn ein hysbysiad i'r wasg: **https://llyw.cymru/hysbysiadau**

At Eich **Dant**

Cyhoeddwyd rhifyn y Gaeaf o At Eich Dant ym mis Chwefror. Diben At Eich Dant yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddeintyddion am faterion cyfredol ym maes deintyddiaeth y GIG:
https://llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig

Y wybodaeth ddiweddaraf am y System Rheoli e-Atgyfeiriadau **Deintyddol**

Cafodd contract i sefydlu System Rheoli e-Atgyfeiriadau Deintyddol ei ddyfarnu i FDS Consultants, a hynny'n weithredol o 1 Mehefin 2018 am gyfnod cychwynnol o dair blynedd. Bydd y system yn galluogi atgyfeiriadau at wasanaethau deintyddol arbenigol i gael eu brysbennu, a hynny ar draws gwasanaethau gofal deintyddol sylfaenol ac eilaidd GIG Cymru. Bydd y system yn gwella ansawdd atgyfeiriadau ac yn lleihau amseroedd aros cleifion am driniaeth. Disgwylir y caiff rhwng 45,000 a 50,000 o atgyfeiriadau eu prosesu drwy'r system e-atgyfeiriadau bob blwyddyn. Pan fydd yn weithredol, Cymru fydd y wlad gyntaf yn y DU i roi system gwbl electronig ar waith ar gyfer atgyfeiriadau deintyddol.

Bwriedir i'r system gael ei chyflwyno yn y ddau fwrdd iechyd cyntaf sy'n fabwysiadwyr cynnar (Hywel Dda ac Abertawe Bro Morgannwg) yn ystod y gwanwyn. Yna, caiff ei chyflwyno ym mhob bwrdd iechyd arall erbyn yr haf. Caiff yr holl wybodaeth sydd ei hangen i gyrchu gwefan y system ar gyfer adnoddau hyfforddi, ynghyd â chanllawiau ar sut i'w defnyddio, eu hanfon at dimau deintyddol y byrddau iechyd sy'n fabwysiadwyr cynnar y mis hwn.

Bydd prif fanteision y system yn cynnwys:

- Gwella canlyniadau cleifion – bydd cleifion yn cael y driniaeth gywir, mewn modd amserol, yn y lleoliad mwyaf priodol;
- Bydd y system newydd yn disodli'r broses bapur a ddefnyddir gan ddeintyddion ar hyn o bryd i anfon atgyfeiriadau, a all gymryd hyd at bedwar diwrnod i gyrraedd drwy'r post;
- Lleihau amseroedd aros am driniaeth drwy wella gweledegd y gwasanaethau sydd ar gael a llwybr atgyfeirio mwy cadarn lle y gall clinigwyr a chleifion olrhain eu cynnydd o fewn y system;
- Bydd proses atgyfeirio fwy cadarn yn ei gwneud yn haws nodi'r angen am wasanaethau lleol; yn ogystal ag anghenion hyfforddi practisau;
- Bydd atgyfeiriadau deintyddol yn cynnwys gwybodaeth gyson y gall pob arbenigedd ei dehongli'n gyflym ac yn gywir, gan gynnwys y gallu i weld delweddau radiograff o ansawdd uchel yn ddigidol.

Pwysau **Iach:** Cymru **Iach**

Lansiwyd ymgynghoriad Pwysau Iach: Cymru Iach ar 17 Ionawr yng Ngwesty'r Marriot, Caerdydd, a hynny yng nghwmni'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething AC. Mae'r ymgynghoriad yn tynnu sylw at ein huchelgais genedlaethol i fynd i'r afael ag un o brif heriau ein cenhedlaeth o ran iechyd y cyhoedd – gordewdra.

Ar ddiwrnod y lansiad, cyflwynodd Evie Morgan o Ysgol Gyfun y Pant, ei safbwyntiau manwl a chlir am yr heriau a wynebir gan bobl ifanc wrth wneud penderfyniadau.

Llywiwyd y gwaith o ddatblygu'r ymgynghoriad gan y Bwrdd Datblygu Strategaeth, lle y cafwyd cyngor a mewnbwn arbenigol gan amrywiaeth o randdeiliaid ymroddedig er mwyn helpu i lywio'r amrywiaeth o gynigion a nodwyd. Mae i'r cynigion dan sylw ffocws clir ar atal, ac fe'u cefnogir gan ymchwil a thystiolaeth ryngwladol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran yr hyn a all helpu pobl i gynnal pwysau iach.

Mae'r gwaith o fynd i'r afael â gwir achosion gordewdra yn gymhleth; bydd angen ymyrryd ar bob lefel. Gwyddom yn iawn nad oes ateb cyflym na hawdd i'r broblem hon. Fodd bynnag, mae gennym gyfle gwirioneddol yng Nghymru i helpu i lywio amrywiaeth o gynigion ac atebion a all ddechrau droi'r drol. Rhannwyd yr ymgynghoriad yn bedair prif thema:

- Arweinyddiaeth a Galluogi Newid
- Amgylcheddau Iach
- Lleoliadau Iach
- Pobl Iach

Mae'r ymgynghoriad ar agor am 12 wythnos hyd at 12 Ebrill. Caiff nifer o ddigwyddiadau eu cynnal ledled Cymru, a fydd yn cynnwys digwyddiadau ymgysylltu ac ymgynghori. Defnyddir yr adborth a gesglir gan y cyhoedd yn ystod yr ymgynghoriad i helpu i lywio'r strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach derfynol, y disgwylir iddi gael ei chyhoeddi ym mis Hydref 2019.

Er mwyn cysylltu â ni a rhoi adborth ar y cynigion, ewch i: **https://llyw.cymru/pwysau-iach-cymru-iach**.

Y Rhaglen **Brechu** rhag yr Eryr

Wrth ystyried nifer yr achosion blynyddol o'r eryr ymhlith y rhai hynny sydd rhwng 70 a 79 oed, amcangyfrifir bod rhwng 790 ac 880 o achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth. Awgryma data o astudiaethau gan feddygon teulu yng Nghymru a Lloegr fod mwy na 50,000 o achosion o'r eryr ymhlith pobl 70 oed a throsodd bob blwyddyn, gyda thua 4% o'r achosion yn arwain at gymhlethdodau, gan gynnwys poen hirdymor (niwralgia postherpetig).

Cyflwynwyd rhaglen genedlaethol brechu rhag yr eryr ar 1 Medi 2013. Ers hynny, cynigiwyd brechiad i bobl 70 oed ar 1 Medi bob blwyddyn fel rhan o'r rhaglen. Hefyd, cyflwynwyd rhaglen "dal i fyny" ar gyfer pobl rhwng 71 a 79 oed. Nod y rhaglen brechu rhag yr eryr yw lleihau nifer yr achosion o'r eryr ymhlith pobl hŷn, ynghyd â difrifoldeb yr achosion hynny. Mae gwybodaeth am nifer y bobl sy'n manteisio ar y rhaglen hon ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

O fis Ebrill 2019 caiff y meini prawf cymhwysedd ar gyfer y rhaglen brechu rhag yr eryr eu symleiddio. O 1 Ebrill 2019, gellir cynnig brechiad rhag yr eryr i unigolion 70 oed. Gellir cynnig y brechiad ar ddiwrnod eu pen-blwydd yn 70 oed neu ar ôl hynny, ond nid cyn hynny. Hefyd, dylid cynnig brechiad rhag yr eryr i bob unigolyn yn ei 70au nad yw wedi cael ei frechu ac nad yw wedi cyrraedd 80 oed.

Drwy symleiddio'r meini prawf cymhwysedd, gobeithir y bydd yn haws i bractisau nodi cleifion cymwys, gan gynnwys y rhai hynny sydd wedi colli cyfleoedd blaenorol i gael eu brechu. Gofynnir i chi ystyried beth arall y gallwch ei wneud yn eich practis i sicrhau bod y nifer fwyaf posibl o bobl yn manteisio ar y rhaglen. Gall enghreifftiau o arfer da gynnwys gwahoddiad personol dros y ffôn neu drwy neges destun, neu fabwysiadu system galw ac ailalw ar gyfer cleifion cymwys. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi datblygu amrywiaeth o ddeunydd ategol a allai fod yn ddefnyddiol i chi wrth helpu i hyrwyddo'r rhaglen yn eich practis **www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/44193/**

Cyflwyno **Gwasanaeth Archwilwyr Meddygol** yng Nghymru

Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau trefniadau i gyflwyno archwilwyr meddygol drwy broses dau gam. Caiff trefniant archwilwyr meddygol anstatudol ei gyflwyno i ddechrau, a hynny o fis Ebrill 2019 yng Nghymru a Lloegr. At ei gilydd, bydd swyddfeydd yr Archwilwyr Meddygol yn cael eu cynnal gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yng Nghymru a sefydliadau darparu acíwt y GIG yn Lloegr.

Bydd y trefniant archwilwyr meddygol anstatudol yn golygu y bydd y broses gyfredol ar gyfer ardystio marwolaeth yn cyd-redeg â'r system archwilydd meddygol. Bydd archwilwyr meddygol sydd wedi cael hyfforddiant penodol, a'u staff, yn gweithio'n unol â'r safonau a'r canllawiau a bennwyd gan Archwilydd Meddygol Cenedlaethol Cymru a Lloegr, a fydd yn darparu arweinyddiaeth broffesiynol a strategol.

Disgwylir y bydd y broses o gyflwyno'r gwasanaeth yn dechrau mewn ysbytai acíwt, ond mae gwaith yn mynd rhagddo i alluogi archwilwyr meddygol i graffu ar bob marwolaeth nad yw'n destun ymchwiliad gan grwner, gan gynnwys marwolaethau yn y gymuned.

Hyd nes y caiff y ddeddfwriaeth ofynnol ei chyflwyno, mae Llywodraeth y DU wedi cytuno y caiff costau rhedeg y system eu hariannu drwy gyfuniad o'r ffi gyfredol a delir am Dystysgrif Feddygol Gadarnhaol ar gyfer Amlosgi (Ffurflen Amlosgi 5) a chyllid atodol gan y llywodraeth. Bydd yr Archwilwyr Meddygol yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gadarnhau Ffurflen Amlosgi 5.

Comisiynwyd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, drwy Bwyllgor y Bartneriaeth (sy'n cynnwys cynrychiolwyr Gweithredol o bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru), i arwain y gwaith o roi'r trefniadau newydd ar waith, a bydd yn gyfrifol am ddatblygu model gwasanaeth ar gyfer GIG Cymru. Bydd hyn yn cyflwyno haenen ychwanegol o annibyniaeth i rôl archwilwyr meddygol yng Nghymru.

Gan efelychu'r trefniadau yn Lloegr, bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru hefyd yn mynd ati yn fuan i recriwtio Archwilydd Meddygol Arweiniol a Swyddog Archwilio Meddygol i Gymru, er mwyn darparu llinell atebolrwydd proffesiynol ar wahân. Yna, bydd yn mynd ati i recriwtio Archwilwyr Meddygol Arweiniol a Swyddogion Archwilio Meddygol i weithio mewn ysbytai lleol.

Coleg Brenhinol y Patholegwyr fydd y coleg arweiniol ar gyfer archwilwyr meddygol, ynghyd â'r prif gyswllt ar gyfer gwybodaeth am y broses o ddatblygu'r gwasanaeth archwilwyr meddygol, ac ef hefyd fydd yn cynnal y rhaglenni hyfforddi gofynnol.

I gael yr holl wybodaeth am y trefniadau arfaethedig ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth, disgrifiadau swydd enghreifftiol, hyfforddiant cyn penodi a gwybodaeth am bwy all wneud cais i fod yn archwilydd meddygol neu'n swyddog archwilio meddygol, cliciwch ar y ddolen isod i wefan Coleg Brenhinol y Patholegwyr:

Mae'r digwyddiadau hyfforddi wyneb yn wyneb a gynhelir gan Goleg Brenhinol y Patholegwyr bellach ar agor ar gyfer ceisiadau ar y wefan. Rhaid i'r 26 o

e-fodiwlau craidd gael eu cwblhau cyn ymgymryd â'r hyfforddiant wyneb yn wyneb.
www.rcpath.org/

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y rolau newydd hyn, cysylltwch â Gareth Hardacre: **gareth.hardacre2@wales.nhs.uk**

Arweinwyr Arbenigeddau **Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru**

Mae proses recriwtio 2019 ar gyfer Arweinwyr Arbenigeddau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru bellach wedi'i chwblhau.

Mae Arweinwyr Arbenigeddau yng Nghymru yn darparu cymorth strategol pwysig fel rhan o Wasanaeth Cefnogi a Chyflenwi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, gan ddatblygu rhwydweithiau o brif ymchwilwyr yn eu maes arbenigedd ac annog pobl i ymgymryd â'r hyfforddiant ledled Cymru. Maent yn gysylltiedig â 30 o feysydd therapiwtig y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd ac yn cynnig cyfle da i Gymru ymgysylltu ar lefel y DU.

Bydd yr Arweinwyr Arbenigeddau yn cwblhau cyfnod swydd o dair blynedd, gan ddechrau ar 1 Ebrill 2019.

Anesthesia, meddygaeth amdriniaethol a rheoli poen – Dr Tamas Szakmany	Clefyd cardiofasgwlaidd – Dr Richard Anderson
Plant – Dr Philip Connor	Gofal critigol – Dr Matthew Morgan
Dermatoleg – Dr John Ingram	Diabetes – Yr Athro Stephen Bain
Gastroenteroleg – Dr Sunil Dolwani	Haematoleg – Dr Raza Alikhan
Hepatoleg – Dr Chin Lye Ch'ng	Anafiadau ac achosion brys – Dr Ceri Battle a Mr Nigel Rees (rôl a rennir)
Iechyd meddwl – Yr Athro Jon Bisson	Anhwylder Metabolig ac Endocrin – Dr Aled Rees
Anhwylderau cyhyrysgerbydol – Dr Kate Button	Niwroleg – Dr Khalid Hamandi
Gofal Sylfaenol – Dr Andrew Carson-Stevens	Arennol – Dr Sian Griffin
Iechyd atgenhedlu a geni plant – Dr Julia Sanders	Anadlol – Yr Athro Keir Lewis
Strôc – Dr Jonathan Hewitt, dirprwy: Dr Manju Krishnan	Llawdriniaeth – Yr Athro Iain Whittaker

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **SpecialtyLeadsSupport@wales.nhs.uk**

Cynllun Indemniad Proffesiynol ar gyfer Meddygon Teulu yng Nghymru

Ym mis Chwefror 2019, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y bydd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cyflwyno'r cynllun a gefnogir gan y wladwriaeth ar gyfer meddygon teulu yng Nghymru mewn perthynas â honiadau o esgeulustod clinigol o 1 Ebrill 2019 ymlaen. Bydd y cynllun, a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2019, yn cwmpasu gweithgareddau pob meddyg teulu dan gontract sy'n gysylltiedig â'r GIG a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill sy'n gweithio yn un o bractisau cyffredinol y GIG.

Mae'r penderfyniad hwn yn deillio o waith ymgysylltu sylweddol a pharhaus â rhanddeiliaid, gan gynnwys Sefydliadau Amddiffyn Meddygol, Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru a gweithwyr proffesiynol allweddol eraill. Mae Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru a GIG Cymru yn cefnogi'r penderfyniad i Wasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru gyflwyno'r cynllun a gefnogir gan y wladwriaeth ar gyfer meddygon teulu.

Sefydlwyd grŵp cyfeirio rhanddeiliaid er mwyn cynrychioli buddiannau cydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru, Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru a GIG Cymru, yn ogystal â'r practisau eu hunain, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu manylion llawn y cynllun, gan ymgysylltu'n barhaus â rhanddeiliaid fel rhan annatod o'r gwaith hwn.

Bydd Llywodraeth Cymru a Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cyhoeddi dogfen ganllaw yn fuan, a fydd yn nodi manylion y cynllun a'r modd y bydd yn gweithredu.

Cyhoeddwyd cyfres o gwestiynau cyffredin, a fydd yn cael ei hadolygu'n barhaus fel y bo'n briodol.

Am ragor o wybodaeth, ac i weld datganiadau ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r cwestiynau cyffredin, ewch i Wefan Contract y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol. **www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=480&pid=96345**

Bwrdd Addysgu Iechyd Powys

Am y tro cyntaf yng Nghymru, mae optometrydd ym Mhowys yn defnyddio pad presgripsiwn FP10(W) i ragnodi rhai meddyginiaethau ocwlar.

Rhestr Anrhydeddau Blwyddyn Newydd y Frenhines

Mae Llywodraeth Cymru yn falch iawn o nodi bod cydweithwyr yn y sector gofal llygaid wedi cael eu cydnabod yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd.

Cafodd Barbara Ryan ei hurddo'n Aelod o Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (MBE). Mae ei gwaith fel cyd-sylfaenydd Canolfan Addysg Optometreg Ôl-raddedig Cymru (WOPEC), arweinydd clinigol ar gyfer Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru, a chyn Brif Gynghorydd Optometreg, wedi bod yn amhrisiadwy wrth ddatblygu a chyflwyno'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Gofal Iechyd y Llygaid; felly hefyd y mae ei gwaith parhaus gyda llywodraeth Cymru a chlinigwyr iechyd y llygaid ledled Cymru.

Dyfarnwyd Medal yr Ymerodraeth Brydeinig (BEM) i Jane Latham a Sharon Beckett. Mae arweinyddiaeth Jane fel cyfarwyddwr cwmni theatr UCAN Productions wedi helpu cannoedd o bobl ifanc â nam ar eu golwg yng Nghymru i wireddu eu potensial llawn ac wedi dangos nad oes angen i nam ar y golwg fod yn rhwystr i lwyddo.

Fel Prif Weithredwr Sight Cymru, mae Sharon wedi sicrhau bod gan ei sefydliad bresenoldeb cryf yn y trydydd sector yn Ne Cymru. Mae ei gwaith wedi helpu nifer o bobl â nam ar eu golwg i gadw'n ddiogel, yn annibynnol ac yn iach. Mae hefyd wedi helpu i fynd i'r afael â'r unigedd ac ynysu cymdeithasol y gall pobl sy'n colli eu golwg yn aml eu teimlo.

Tystysgrif Rhagoriaeth ar gyfer Cangen Polisi'r Synhwyrau

Yn ystod digwyddiad dathlu yn Llundain, cyflwynwyd Tystysgrif Rhagoriaeth i Gangen Polisi'r Synhwyrau gan John Manzoni, Ysgrifennydd Parhaol Swyddfa'r Cabinet a Phrif Weithredwr y Gwasanaeth Sifil.

Dyfarnwyd y dystysgrif i'r gangen am ragoriaeth weithredol wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus – gan roi anghenion ac adborth cwsmeriaid wrth wraidd y broses o gynllunio a/neu gyflawni gwaith datblygu polisi/rheoli prosiectau; bod yn barod i ystyried ffyrdd newydd o weithio a modelau cyflenwi newydd; meithrin partneriaethau effeithiol rhwng gweision sifil a staff cyflawni; a rhannu arfer gorau er mwyn gwella ansawdd a chynhyrchiant gwasanaethau yn sylweddol, a sicrhau eu bod yn cynnig gwerth da am arian i'r cyhoedd.

SPECS

Mae Llwybr Golwg Plant Cymru 011 (2015) Cylchlythyr Iechyd Cymru ar gyfer plant 4-5 oed, a gyhoeddwyd yn 2015, yn rhoi cyfarwyddyd i fyrddau iechyd ddatblygu gwasanaeth dan arweiniad orthoptyddion er mwyn galluogi nysrsys ysgol i sgrinio llygaid plant am broblemau â'r golwg. O ran cydraddoldeb, mae gwaith ar y gweill i adolygu'r Cylchlythyr Iechyd fel ei fod yn cynnwys pob plentyn heb ystyried lleoliadau ysgol, h.y. ysgol arbennig neu uned ysgol arbennig mewn ysgol brif ffrwd.

Lluniwyd atodiad â meini prawf penodol i'w gynnwys gyda'r Cylchlythyr cyfredol, i'w ddefnyddio i atgyfeirio plant sy'n bodloni'r meini prawf penodol at fodel gwasanaeth newydd arfaethedig er mwyn cael prawf golwg, a hynny ni waeth pa leoliad ysgol y maent yn ei fynychu.

Ariannodd Llywodraeth Cymru Reolwr Prosiect a Bwrdd Prosiect am flwyddyn er mwyn datblygu model gwasanaeth newydd. Mae manyleb y gwasanaeth arfaethedig a'r dogfennau ategol ar fin cael eu cwblhau, gyda'r nod o'u cyflwyno i Fwrdd Llywio Gofal Llygaid Cymru i'w cymeradwyo.

Rhagwelir y caiff y gwasanaeth ei arwain gan fwrdd iechyd arweiniol ar ran yr holl fyrddau iechyd, a fydd yn arwain y gwaith o gyflwyno'r gwasanaeth fesul cam yn genedlaethol dros y tair blynedd nesaf.

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Parafeddyg-Ragnodydd Annibynnol a Pharafeddyg-Ragnodydd Atodol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2019

Daeth y Rheoliadau i rym ar 22 Chwefror 2019, gan alluogi uwch-barafeddygon i ragnodi meddyginiaethau i gleifion. Gellir dod o hyd i gopi o'r Rheoliadau yma: **www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2019/149/contents/made/welsh**

Bydd cyflwyno hyfforddiant ar ragnodi annibynnol ac atodol ar gyfer parafeddygon yn eu galluogi i fanteisio i'r eithaf ar eu gallu i wella gofal, profiad a diogelwch cleifion. Bydd hefyd yn galluogi cleifion i gael gofal a thriniaeth briodol yn fwy amserol ac yn nes at y cartref, ac yn eu helpu i barhau i hunanreoli eu cyflwr gartref. Byddai hefyd yn osgoi teithiau diangen i'r ysbyty neu apwyntiadau ychwanegol â gweithwyr iechyd proffesiynol eraill, er enghraifft meddygon teulu, er mwyn cael y driniaeth a'r meddyginiaethau sydd eu hangen arnynt.

Bydd Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Parafeddyg-Ragnodydd Annibynnol a Pharafeddyg-Ragnodydd Atodol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2019 yn galluogi Parafeddygon sy'n ymgymryd â hyfforddiant ar ragnodi annibynnol ac atodol i ragnodi meddyginiaethau yng Nghymru.

O ran y Parafeddygon hynny sy'n ymgymryd â rhaglen ragnodi cymeradwy, ac yn ei chwblhau'n llwyddiannus, caiff eu cofrestriad gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal ei anodi er mwyn cofnodi eu gallu i ragnodi meddyginiaethau.

Bydd presgripsiynau a roddir gan barafeddygon yn dal i fod yn ddi-dâl i'r claf, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru. Fel yn achos holl bresgripsiynau eraill y GIG ar gyfer meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol, bydd y presgripsiynau hyn hefyd wedi'u heithrio rhag y tâl am fag untro pan gânt eu rhoi gan fferyllydd.

Caiff y Canllawiau ar Ragnodi Anfeddygol yng Nghymru eu diweddaru yn fuan yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol, a chânt eu cyhoeddi drwy Gylchlythyr Iechyd Cymru gan Brif Gynghorydd Therapi Cymru.

Y wybodaeth ddiweddaraf am Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG)

Canllaw Cymru Gyfan ar Ragnodi Cynhyrchion Heb Glwten (diweddariad)

www.awmsg.org/docs/awmsg/medman/All Wales Guide to Prescribing Gluten-Free Products.pdf

Mae cynhyrchion heb glwten yn rhan hanfodol o'r driniaeth glinigol ar gyfer clefyd seliag. Nod y Canllaw Cymru Gyfan ar Ragnodi Cynhyrchion Heb Glwten yw cefnogi meddygon teulu a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill i reoli cleifion â chlefyd seliag, ynghyd â'u helpu i wneud penderfyniadau ynghylch rhagnodi bwydydd heb glwten a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Cynghori ar Sylweddau Ffiniol (ACBS). Cafodd atodiadau sy'n manylu ar gynhyrchion heb glwten yr ystyrir eu bod yn addas i'w rhagnodi yng Nghymru eu diweddaru ym mis Tachwedd 2018 er mwyn adlewyrchu newidiadau i'r rhestr ddiweddaraf o gynhyrchion y gellir eu rhagnodi a luniwyd gan Coeliac UK.

Archwiliad cenedlaethol y CEPP – Y defnydd o gyffuriau gwrth-seicotig i drin Dementia

www.awmsg.org/docs/awmsg/medman/CEPP National Audit - Antipsychotics in dementia.pdf

Nod yr archwiliad hwn yw sicrhau bod cyffuriau gwrth-seicotig yn cael eu rhagnodi'n briodol i gleifion 65 oed a throsodd sy'n cael diagnosis o ddementia. Caiff hyn ei gyflawni drwy fesur i ba

raddau y mae'r broses o ragnodi cyffuriau gwrth-seicotig i gleifion 65 oed a throsodd yn cydymffurfio â chanllawiau cyfredol NICE, a helpu i nodi cleifion y gallai fod yn briodol lleihau eu dos o gyffuriau gwrth-seicotig neu eu hatal yn llwyr. Cymeradwywyd y ddogfen hon gan AWMSG ym mis Rhagfyr 2018.

Meddyginiaethau a Nodwyd yn Flaenoriaeth Isel ar gyfer Cyllid yn GIG Cymru – Papur 2

www.awmsg.org/docs/awmsg/medman/Medicines Identified as Low Priority for Funding in NHS Wales - Paper 2.pdf

Nod y ddogfen hon yw lleihau nifer y meddyginiaethau a ragnodir sy'n cynnig effeithiolrwydd clinigol isel i gleifion neu os oes triniaethau mwy costeffeithiol ar gael. Nodwyd pedwar grŵp o feddyginiaethau/meddyginiaeth at ddiben y ddogfen hon: cyfansoddion asidau brasterog omega-3, cynhyrchion sy'n cyfuno ocsicodon a nalocson, cynhyrchion sy'n cyfuno paracetamol a tramadol a Cymeradwywyd y ddogfen hon gan AWMSG ym mis Rhagfyr 2018.

Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2018-2019: Dadansoddi Data ar Ragnodi

Mae'r papurau hyn yn adrodd ar gynnydd byrddau iechyd mewn perthynas â phob un o Ddangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2018-2019 ar gyfer y chwarteri a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2018 a mis Medi 2018. Mae Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2018-2019 yn cynnwys dangosyddion ar gyfer gofal sylfaenol a gofal eilaidd, ac maent wedi'u dosbarthu'n gategorïau, sef diogelwch, stiwardiaeth neu ddangosyddion effeithlonrwydd.

– Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2018-2019: Dadansoddi Data ar Ragnodi hyd at fis Mehefin 2018

www.awmsg.org/docs/awmsg/medman/National Prescribing Indicators 2018-2019 Analysis of Prescribing Data to June 2018.pdf

Roedd mwyafrif y Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol â throthwy yn dangos gwelliant yn unol â nod pob dangosydd, o gymharu â'r chwarter cyfatebol yn y flwyddyn flaenorol (y chwarter a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2017). Y Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol nad oeddent yn dangos gwelliant yn genedlaethol oedd gabapentin a phregabalin (cynnydd o 7.51%), Cardiau Melyn ym maes gofal eilaidd (lleihad o 42%), proffylacsis llawfeddygol (lleihad o 5%) ac inswlin hir-weithredol (cynnydd o 0.41%). Cyflwynwyd y ddogfen hon i AWMSG er gwybodaeth ym mis Rhagfyr 2018.

– Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2018-2019: Dadansoddi Data ar Ragnodi hyd at fis Medi 2018

www.awmsg.org/docs/awmsg/medman/National Prescribing Indicators 2018-2019 Analysis of Prescribing Data to September 2018.pdf

Roedd mwyafrif y Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol â throthwy yn dangos gwelliant yn unol â nod pob dangosydd, o gymharu â'r chwarter cyfatebol yn y flwyddyn flaenorol (y chwarter a ddaeth i ben ym mis Mai 2017). Y Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol nad oeddent yn dangos gwelliant yn genedlaethol oedd gabapentin a phregabalin (cynnydd o 5.19%), Cardiau Melyn

gan y sector gofal eilaidd, byrddau iechyd ac aelodau o'r cyhoedd (lleihad o 14%, 2% a 5%, yn y drefn honno), a phroffylacsis llawfeddygol (lleihad o 4%). Cyflwynwyd y ddogfen hon i AWMSG er gwybodaeth ym mis Chwefror 2018.

Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2019-2020

www.awmsg.org/docs/awmsg/medman/National Prescribing Indicators 2019-2020.pdf

Mae'r papur hwn yn manylu ar y Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol a gaiff eu monitro ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-2020. Mae'r Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol ar gyfer 2019-2020 yn canolbwyntio ar ddiogelwch, stiwardiaeth ac effeithiolrwydd, ac maent wedi'u dosbarthu'n gategorïau yn unol â hynny. Mae Dangosydd Presgripsiynu Newydd wedi'i ddatblygu er mwyn monitro baich cyffredinol opioidau ac annog y defnydd priodol o opioidau ym maes gofal sylfaenol, ynghyd ag adolygiad o'r defnydd hwnnw. Ochr yn ochr â'r ychwanegiad hwn, mae tri Dangosydd Presgripsiynu Cenedlaethol wedi'u diddymu, a dau wedi'u diwygio.

Mae crynodeb o'r Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol hefyd wedi'i gyhoeddi, sef *National Prescribing Indicators 2019–2020: Supporting Information for Prescribers and Healthcare Professionals* **www.awmsg.org/docs/awmsg/medman/National Prescribing Indicators 2019-2020 Supporting Information for Prescribers and Healthcare Professionals.pdf**. Mae'r ddogfen yn cynnwys trosolwg cryno o bob dangosydd, gan gynnwys: diben, uned fesur, rhesymeg gryno a phwyntiau presgripsiynu, ynghyd â dolenni i adnoddau defnyddiol. Cymeradwywyd y dogfennau hyn gan AWMSG ym mis Chwefror 2019.

Cyngor AWMSG

Cyhoeddodd Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) gyngor ar nifer o feddyginiaethau yn ddiweddar, a gadarnhawyd gan Lywodraeth Cymru. Os caiff meddyginiaeth ei hargymell gan AWMSG a'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, rhaid i fyrddau iechyd ddyrannu cyllid cyn pen deufis i gael gwybod am hynny. Os na chaiff meddyginiaeth ei hargymell, ni ddylai gael ei rhagnodi fel mater o drefn yn GIG Cymru at y defnydd a nodwyd. Mae'r argymhellion canlynol a wnaed gan AWMSG i'w gweld yn llawn ar wefan AWMSG: **www.awmsg.org**.

Rhif cyfeirnod AWTTC	Meddyginiaeth	Defnydd
Meddyginiaethau a argymhellir		
786	**conestat alfa (Ruconest) – 2,100 uned o bowdr i greu toddiant i'w chwistrellu a phowdr a thoddydd i greu toddiant i'w chwistrellu**	Ar gyfer trin pyliau acíwt o angioedema ymhlith oedolion a phobl ifanc sydd ag angioedema etifeddol o ganlyniad i ddiffyg atalydd esterase C1 **www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/786**
2850	**dolutegravir/ rilpivirine (Juluca) – tabled 50 mg/25 mg wedi'i gaenu**	Ar gyfer trîn haint feirws imiwnoddiffygiant dynol math 1 (HIV-1) ymhlith oedolion ag ataliad feirolegol (HIV-1 RNA <50 copi/ml) sydd ar gwrs sefydlog o driniaeth wrthretrofiraol am o leiaf chwe mis heb unrhyw haes o fethiant feirolegol nac unrhyw ymwrthedd hysbys nac a amheuir i unrhyw atalydd transgriptas gwrthdro anniwcleosid nac atalydd integras **www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/2850**

Rhif cyfeirnod AWTTC	Meddyginiaeth	Defnydd
3789	**fosaprepitant (IVEMEND) – 150 mg o bowdr i greu toddiant i'w drwytho**	Ar gyfer atal cyfog a chwydu sy'n gysylltiedig â thriniaeth cemotherapi emotegenig iawn neu gymedrol emotegenig ar gyfer canser ymhlith cleifion rhwng 6 mis a 18 oed **www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3789**
3604	**ipilimumab (Yervoy) – crynodiad 5 mg/ml i greu toddiant i'w drwytho**	Fel monotherapi ar gyfer trin achosion o felanoma (na ellir ei dynnu'n llwyr neu fetastatig) datblygedig ymhlith pobl ifanc rhwng 12 a 18 oed **www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3604**
1882	**tiotropium (Spiriva Respimat) – toddiant 2.5 microgram i'w fewnanadlu**	Fel triniaeth cynnal yn ychwanegol at froncoledydd ar gyfer cleifion 6 oed a throsodd ag asthma difrifol a gafodd un neu fwy o byliau difrifol o asthma yn ystod y flwyddyn flaenorol **www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/1882**
Argymhellwyd â chyfyngiadau		
3414	**bictegravir/ emtricitabine/ tenofovir alafenamide (Biktarvy) – tabled 50 mg/ 200 mg/25 mg wedi'i gaenu**	Ar gyfer trin oedolion a heintiwyd â feirws imiwnoddiffygiant dynol 1 (HIV-1) heb dystiolaeth bresennol na blaenorol o ymwrthedd feirol i atalyddion integras/emtricitabine/tenofovir **www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3414**

Rhif cyfeirnod AWTTC	Meddyginiaeth	Defnydd
3387	**brivaracetam (Briviact) – tabled 10 mg, 25 mg, 50 mg, 75 mg a 100 mg wedi'i gaenu, toddiant 10 mg/ml i'w yfed a thoddiant 10 mg/ml i'w chwistrellu/ trwytho**	Fel therapi atodol i drin ffitiau cynnar rhannol gyda ffitiau cyffredinol eilaidd, neu hebddynt, ymhlith oedolion, pobl ifanc a phlant dros 4 oed ag epilepsi **www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3387**
1842	**semaglutide (Ozempic) – toddiant 1.34 mg/ml i'w chwistrellu**	Ar gyfer trin oedolion â diabetes mellitus math 2 a reolir yn annigonol yn ychwanegol at ddeiet ac ymarfer corff: Fel monotherpai lle yr ystyrir bod metfformin yn amhriodol o ganlyniad i anoddefiad neu wrtharwyddion; yn ychwanegol at feddyginiaethau eraill i drin diabetes **www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/1842**

Yn absenoldeb cyflwyniad gan ddeiliad yr awdurdodiad matchnatya, ni ellir cymeradwyo'r meddyginiaethau canlynol i'w defnyddio yn GIG Cymru.

Rhif cyfeirnod AWTTC	Datganiadau o Gyngor	Cwmni
3588	**allopurinol/lesinurad (Duzallo) – tabled 200 mg/200 mg a 300 mg/200 mg wedi'i gaenu** **www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3588**	Grunenthal Ltd
1372	**brexpiprazole (Rexulti) – tabled 0.25 mg, 0.5 mg, 1 mg, 2 mg, 3 mg a 4 mg wedi'i gaenu** **www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/1372**	Otsuka Pharmaceutical (UK) Ltd
3386	**buprenorphine/naloxone (Zubsolv) – tabled 0.7 mg/0.18 mg, 1.4 mg/0.36 mg, 2.9 mg/0.71 mg, 5.7 mg/1.4 mg, 8.6 mg/2.1 mg a 11.4 mg/2.9 mg i'w roi o dan y tafod** **www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3386**	Mundipharma Corporation Ltd
3733	**glibenclamide (Amglidia) – dos 0.6 mg/ml a 6 mg/ml** **www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3733**	Amring Pharmaceuticals
2473	**rucaparib (Rubraca) – tabled 250 mg a 300 mg wedi'i gaenu** **www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/2473**	Clovis Oncology Inc

Rhif cyfeirnod AWTTC	Datganiadau o Gyngor	Cwmni
2707	**sirolimus (Rapamune) – tabled 0.5 mg, 1 mg a 2 mg a thoddiant 1 mg/ml i'w yfed** **www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/2707**	Pfizer Ltd
3885	**sufentanil (Dzuveo) – tabled 30 microgram i'w roi dan y tafod** **www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3885**	FGK Representative Service GmbH
3970	**tapentadol (Palexia) – toddiant 20 mg/ml i'w yfed** **www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3970**	Grunenthal Ltd

Cynhelir cyfarfod nesaf AWMSG ar 10 Ebrill 2019. Bydd holl ddogfennau'r cyfarfod ar gael ar wefan AWMSG **www.awmsg.org/awmsgonline/meetings_awmsg_2019.html** cyn y cyfarfod.

Manylion cyswllt
Frank Atherton
Prif Swyddog Meddygol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhif ffôn: **03000 257028**
E-bost: **pschiefmedicalofficer@llyw.cymru**

Dilynwch ni ar Twitter
@CMOWales